# Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4448A2924

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amcanion a chwmpas ein gwaith | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 8 |
| Atodiad 1 – Dulliau archwilio | 10 |
| Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio | 12 |

# Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae etifeddiaeth pandemig COVID-19 ar alw gwasanaethau, y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal ystad sy'n heneiddio, mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cynyddol gymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa archwiliedig diwedd blwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru yn ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai cyrff GIG wedi gallu cyflawni cydbwysedd ariannol diwedd blwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill - yn enwedig rhai Byrddau Iechyd - yn heriol gyda nifer yn methu â chyflawni'r diffyg rheoli a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn a hefyd i fabwysiadu dull hirdymor o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd o ddulliau tymor byr o ymdrin â rhai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgymryd â rhaglen waith sy'n archwilio dulliau cyrff y GIG o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Er bod ein gwaith manylach wedi'i anelu at fyrddau iechyd, rydym hefyd wedi gwneud gwaith lefel uchel mewn Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol y cyrff hynny. Mae canfyddiadau'r gwaith lefel uchel hwnnw yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

6 Gwnaethom ymgymryd â'r rhan fwyaf o'n gwaith rhwng mis Chwefror 2024 a mis Mai 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

7 Yn gyffredinol, gwelsom fod **yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar ei tharged arbedion cyffredinol ar gyfer 2023-24 ac yn parhau i wella ei threfniadau ar gyfer nodi, cyflawni a monitro effeithlonrwydd ac arbedion costau cynaliadwy. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i'r Ymddiriedolaeth leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd, cryfhau galluoedd ariannol ar draws y sefydliad, a mireinio ei hadroddiadau ar arbedion i'r Bwrdd.**

8 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliad cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- Nodi cyfleoedd i wella costau.
- Cyflawni cyfleoedd i wella costau.
- Monitro a throsolwg o gyfleoedd gwella costau.

## Nodi cyfleoedd i wella costau

9 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'i ysgogyddion cost, sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Chynllun Ariannol ar gyfer 2023-24. Mae ei phrif ysgogydd costau yn cynnwys cyflogau, cyfleustodau, tanwydd cerbyd, chwyddiant cyffredinol nad yw'n ymwneud â chyflog a chostau sy'n gysylltiedig â phwysau gwasanaeth, yn enwedig y rhai a grëwyd gan oedi wrth drosglwyddo o ambiwlans. Ym mis Ionawr 2023, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Broses Rheoli Recriwtio fel un o'r ysgogiadau yn ei Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ehangach (FSP) i gyflawni ei dyletswydd statudol i sicrhau cydbwysedd ariannol. Er ein bod yn cydnabod bod rheoli swyddi gwag yn cefnogi dull cyffredinol yr Ymddiriedolaeth o reoli meysydd gwariant uchel, mae risgiau yn gysylltiedig â bod yn rhy ddibynnol ar arbedion afreolaidd o'r math hwn i gyflawni ei thargedau arbedion cyffredinol. Byddwn yn trafod hyn ymhellach ym **mharagraff 12**.

10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio data o ystod eang o ffynonellau yn briodol i lywio ei dull o nodi cyfleoedd gwella costau. Er enghraifft, ar adeg ein gwaith, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau Adolygiad Gwasanaethau Gweinyddol yn ddiweddar ac roedd wrthi'n cwblhau ei Hadolygiad Gwasanaethau ar draws y sefydliad. Defnyddiodd yr adolygiadau hyn ddata a meincnodi mewnol, gan gynnwys data o'i Rhwydwaith Gwella ac Arloesi Cymru (Wiin)[1], i nodi camau allweddol a ddylai, o'u gweithredu, nodi arbedion effeithlonrwydd ychwanegol a meysydd ar gyfer arbedion. Er y gall staff yr Ymddiriedolaeth gyflwyno syniadau ac awgrymiadau ar hyn o bryd drwy borth Wiin, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu

[1] Lansiodd yr Ymddiriedolaeth WiiN yn 2017 i ysgogi gwelliant ansawdd cyson ar draws y sefydliad. Mae'r rhwydwaith traws-gyfarwyddiaeth, a gydlynir gan y Tîm Gwella Ansawdd, yn cefnogi staff gyda phrosiectau gwella ansawdd, hyfforddiant a chyfathrebu. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gyswllt allweddol ar gyfer cyrff a thimau gwella ar draws sefydliadau a chyrff iechyd eraill, gan gynorthwyo traws-weithio.

gwella ymgysylltiad staff ymhellach trwy ddarparu gwybodaeth gliriach am y broses arbedion ar SIREN[2] a chryfhau'r ffordd y mae'r FSP yn gweithio ar y cyd â Wiin.

11 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull gweithredu clir o ran dewis cynlluniau gwella costau drwy broses tri cham[3] sy'n seiliedig ar risg. Mae'r dull hwn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i nodi buddion cynlluniau arbedion yn ogystal ag asesu eu risgiau a'u heffeithiau ar gleifion ac ansawdd. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn dadethol cynlluniau lle mae'r effeithiau'n gorbwyso'r buddion. Roedd Cynllun Ariannol cychwynnol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2023-24 yn cynnwys targed arbedion o £6 miliwn, a oedd ym mis Mawrth 2023 â £2.6 miliwn o arbedion anhysbys. Fodd bynnag, roedd wedi nodi cynlluniau arbedion digonol i dalu'r diffyg hwn erbyn Mis 3 2023-24. Er mwyn cyflawni cynllun ariannol cytbwys ar gyfer 2024-25, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod targed arbedion o £6.4 miliwn neu 2.2% o'i llinell sylfaen cost. Ar adeg cyhoeddi ei Chynllun Ariannol 2024-25 ym mis Mawrth 2024, roedd wedi nodi'r holl arbedion hyn. Er bod heriau yn gysylltiedig â natur afreolaidd rhai o'r cynlluniau arbedion, dylai'r dull hwn o nodi'n gyflym gyfleoedd arbedion roi digon o amser i'r Ymddiriedolaeth nodi cynlluniau pellach os bydd cynlluniau arbedion y cytunwyd arnynt yn dechrau syrthio’n ôl o ran eu cyflawni fel y cynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

## Cyflawni cyfleoedd i wella costau

12 Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o gyflawni ei tharged arbedion cyffredinol, er ei bod yn gwneud hyn i raddau helaeth drwy gyflawni arbedion afreolaidd. Yn 2022-23, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion cost o £4.3 miliwn, ac yn 2023-24 rhagorodd ar ei tharged arbedion o £6 miliwn gyda £0.5 miliwn o arbedion ychwanegol. Fodd bynnag, roedd dros 55% o'r arbedion a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2023-24 yn rhai afreolaidd gyda chyfran sylweddol (39%) o'r rhain yn arbedion rheoli swyddi gwag. Mae perygl y bydd gorddibyniaeth ar arbedion afreolaidd yn mynd yn anghynaladwy yn y pen draw ac yn rhoi pwysau ar wasanaethau'r Ymddiriedolaeth a chynlluniau ariannol yn y dyfodol. (**Argymhelliad 1**)

13 Mae trefniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cyflawni ei harbedion a'i gwelliannau costau yn parhau i wella. Mae gan FSP yr Ymddiriedolaeth ddau faes ffocws allweddol: arbedion / effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm. Yn sail i'r rhaglen hon mae Fframwaith Cyflawni Cynaliadwyedd Ariannol (FSDF). Er bod yr FSDF wedi darparu fframwaith angenrheidiol ar gyfer cyflawni effeithlonrwydd ariannol ac arbedion, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wella agweddau ar ei chynllunio ar gyfer arbedion drwy, er enghraifft, sicrhau bod mwy o aliniad rhwng

[2] ‘SIREN’ yw porth mewnrwyd mewnol yr Ymddiriedolaeth.

[3] Tri cham y broses arbedion yw: 1. 'Cyfnod Nodi' cyfleoedd arbedion; 2. Y 'Cyfnod Hyfywedd' pan asesir y cyfleoedd i benderfynu a ydynt yn hyfyw; a 3. Y 'Cyfnod Prosiect' pan fo cyfleoedd hyfyw yn cael eu rhoi ar waith.

yr FSP a'r ffrydiau gwaith sy'n darparu effeithlonrwydd gweithredol a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth.

14 Roedd un o’r prif bethau a ddysgodd yr Ymddiriedolaeth o'i gwerthusiad diwedd blwyddyn o'r FSP yn cydnabod bod angen iddi fuddsoddi mewn datblygu llythrennedd a chymwyseddau ariannol ar draws pob lefel o staff i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at gynaliadwyedd ariannol y sefydliad. Nododd y gwerthusiad hefyd fod diffyg arbenigedd a gallu mewn rhai meysydd penodol, megis cynhyrchu incwm masnachol. Bydd yn bwysig, felly, i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn ei llythrennedd, cymwyseddau a'i harbenigedd ariannol os yw am wneud y mwyaf o nodi a chyflawni arbedion ac effeithlonrwydd yn 2024-25 a thu hwnt. (**Argymhelliad 2**)

## Monitro a throsolwg o gyfleoedd i wella costau

15 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau trosolwg o gyflawniad ei Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Mae Bwrdd Trawsnewid Strategol (STB) sefydledig ar waith sy'n darparu trosolwg lefel uwch o raglenni allweddol, fel yr FSP. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi cyflawni Fframwaith Strategol Tymor Hir yr Ymddiriedolaeth a Chynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2024-2027. Mae trosolwg rheolaidd o wariant ariannol a pherfformiad arbedion ar lefel Gweithredol a Bwrdd. Mae aelodau'r Bwrdd yn deall yn glir y sefyllfa ariannol bresennol ac yn parhau i ddarparu lefel briodol o graffu a her i gefnogi gwelliant yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&PC).

16 Fodd bynnag, mae gan drefniadau adrodd mewnol yr Ymddiriedolaeth ar arbedion y potensial i achosi dryswch. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn adrodd yn rheolaidd ar ei pherfformiad arbedion i'r Bwrdd ac i’r F&PC, mae enghreifftiau o ble mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiadau hyn yn wahanol. Er enghraifft, ar gyfer cyfarfod Bwrdd Mawrth 2024, nododd yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol ar gyfer Mis 11 2023-24 fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £4.949 miliwn o arbedion. Fodd bynnag, nododd Adroddiad Cyllid Mis 11 2023-24 i'r un cyfarfod fod £6.079 miliwn o welliannau i'r costau wedi'u cyflawni. Mae hyn oherwydd y ffaith bod yr adroddiad olaf yn cynnwys arbedion a gynhyrchwyd o gynhyrchu incwm. Er bod y ddau ffigur hyn yn dechnegol gywir, mae potensial y gallai adrodd ffigurau gwahanol arwain at ddryswch a thanseilio hyder yng nghadernid adrodd ar arbedion yr Ymddiriedolaeth. (**Argymhelliad 3**)

17 Yn ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella eglurder y ffordd y mae'n adrodd am arbedion i'r STB, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r F&PC. Yn 2023-24, nid oedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys digon o fanylion am y rhaniad rhwng arbedion rheolaidd ac afreolaidd i gefnogi monitro a throsolwg effeithiol. Fodd bynnag, ers Mis 3 2024-25, mae'r adroddiadau hyn bellach yn cynnwys y lefel hon o fanylion a ddylai gynorthwyo dealltwriaeth o gynaliadwyedd cynlluniau arbedion yr Ymddiriedolaeth a'u gallu i helpu i fynd i'r afael â heriau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

18 Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r risgiau allweddol ar gyfer ei FSP, ac mae'r rhain bellach yn rhan o Gynllun Olrhain newydd FSP 2024-25. Mae FSP yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cael ei chydnabod fel rheolaeth allweddol ac yn ffynhonnell sicrwydd ar gyfer dau o risgiau corfforaethol allweddol yr Ymddiriedolaeth o ran ei lefelau cyllido a chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a F&PC sydd, yn ei dro, yn rhoi lefel ychwanegol o sicrwydd i'r Bwrdd bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni ei dyletswyddau ariannol drwy gyflawni arbedion.

19 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull gweithredu rhagweithiol ar gyfer dysgu a chymhwyso gwersi i wella ei dull o ymdrin ag arbedion. Fel y nodwyd uchod, yn ddiweddar mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal gwerthusiad manwl o'i chynnydd o ran cyflawni ei arbedion 2023-24 trwy'r FSP. Mae'r gwerthusiad rhagweithiol hwn wedi rhoi diweddariad defnyddiol ar gynnydd diwedd y flwyddyn ar bob maes cynllun arbedion ac mae hefyd wedi nodi sawl pwynt dysgu allweddol arall, gan gynnwys yr angen i wneud gwelliannau mewn meysydd megis proses, cyfathrebu, dogfennaeth, datblygu sgiliau allweddol, ac archwilio'r rhesymau pam nad oedd rhai cynlluniau yn cyflawni fel y rhagwelwyd. Mae ymgymryd â'r math hwn o fyfyrdod yn gadarnhaol a dylai ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gryfhau trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer nodi a chyflawni ei harbedion. (**Argymhelliad 4**)

## Argymhellion

20 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn. Crynhoir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion**

| **Argymhellion** |
|---|
| A1 Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd. Bydd hyn yn ei galluogi i leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd mewn meysydd fel rheoli swyddi gwag a gosod ei chynlluniau arbedion ariannol ar sail fwy cynaliadwy. **(Paragraff 12)** |
| A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o fynd i'r afael â bylchau mewn setiau sgiliau staff o ran nodi a chyflawni cyfleoedd arbedion ac effeithlonrwydd. **(Paragraff 14)** |

**Argymhellion**

A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei hadroddiadau ar arbedion i'r Bwrdd a'r F&PC, yn gyson neu'n darparu esboniad clir o'r gwahaniaethau rhwng y perfformiad arbedion a gofnodwyd. Bydd hyn yn helpu dealltwriaeth, lleihau dryswch, a chynnal hygrededd adrodd ar arbedion yr Ymddiriedolaeth. **(Paragraff 16)**

A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'i hadolygiad diweddar o'i Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol yn llawn. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn cryfhau ei threfniadau arbedion ymhellach ac yn gwneud y mwyaf o'i chyfleoedd arbedion. **(Paragraff 19)**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, papurau a chofnodion.<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol.<br>• Data meincnodi arbedion.<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br>• Adroddiadau a chynlluniau allweddol sy'n ymwneud â chyllid ac arbedion sefydliadol.<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gyfweld â'r uwch swyddogion canlynol: |

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>• Uwch Reolwr Rhaglen (Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol)<br>• Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i’r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3:** Ymateb rheolwyr Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'n hargymhellion archwilio.

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd. Bydd hyn yn ei galluogi i leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd mewn meysydd fel rheoli swyddi gwag a gosod ei chynlluniau arbedion ariannol ar sail fwy cynaliadwy. **(Paragraff 12)** | Bydd elfen o arbedion afreolaidd mewn cysylltiad â'r thema arbedion rheoli swyddi gwag corfforaethol oherwydd yr amser a gymerir yn hanesyddol i hysbysebu, recriwtio a phenodi pan fydd swyddi'n dod yn wag. Bydd argymhellion o'r adolygiad gwasanaethau yn cael eu hasesu a, lle bo hynny'n bosibl, bydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd rheolaidd drwy newidiadau sefydliadol yn cael | 31 Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol (FinCoR) |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | eu gweithredu. Ar hyn o bryd mae gan 2024/25 raniad o 56.7% o arbedion rheolaidd a 43.3% o arbedion afreolaidd, gydag unrhyw gyflawni yn uwch na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn, mewn cynlluniau rheolaidd, yn ddefnyddiol, yn hytrach nag afreolaidd.<br><br>Bydd targed arbedion Cynllun ariannol 2025/26 yn anelu at o leiaf 65% o themâu rheolaidd | | |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o fynd i'r afael â bylchau mewn setiau sgiliau staff o ran nodi a chyflawni cyfleoedd | Amlygodd canlyniad yr Adolygiad Gwasanaethau Gweinyddol a Chorfforaethol diweddar yr angen am hyfforddiant a buddsoddiad | Adolygiadau manwl nesaf: | Cyfarwyddwr<br>Pobl a Diwylliant (fel |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr** Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau** Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | arbedion ac effeithlonrwydd. **(Paragraff 14)** | ychwanegol mewn cydweithwyr, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd drwy Gynllun Gweithredu sy'n eiddo i ADLT, a disgwylir i'r gwaith o gwblhau'r Adolygiad Gwasanaeth sydd ar ddod hefyd dynnu sylw at feysydd o wasanaeth sydd ag adnoddau digonol ac annigonol gan sicrhau buddsoddiad mwyaf priodol o adnoddau yn y meysydd cywir.<br>Gan ganolbwyntio'n benodol ar yr agenda cynhyrchu incwm a masnacheiddio, sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun ariannol 2024/25 mae tua £0.250m i gefnogi hyn yn uniongyrchol. Bydd hyn yn cynnwys recriwtio adnoddau pwrpasol i yrru hyn ymlaen, gan gynnwys buddsoddi mewn swydd Pennaeth Masnachol | - ADLT Adolygiad Gweinyddu – 31 Mawrth 2025<br>- Ar ôl penodi Pennaeth Masnacheiddio – 30 Mehefin 2025 | Uwch Swyddog Cyfrifol yr FSP) a Chyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol a Pholisi (fel arweinydd masnacheiddio) |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | ochr yn ochr â strwythur masnachol i wella gwybodaeth arbenigol. Mae'r prosiect a'r recriwtio hyn ar y gweill. | | |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei hadroddiadau arbedion i'r Bwrdd a’r F&PC, yn gyson neu'n darparu esboniad clir o'r gwahaniaethau rhwng y perfformiad arbedion a gofnodwyd. Bydd hyn yn helpu dealltwriaeth, lleihau dryswch, a chynnal hygrededd adrodd ar arbedion yr Ymddiriedolaeth. **(Paragraff 16)** | Mae Adroddiadau Cyllid o fis 03 2024/25 i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a’r F&PC yn cynnwys rhagor o adroddiadau manwl o arbedion sy'n cynnwys rhannu themâu rheolaidd ac afreolaidd. Mae Ffurflenni Monitro Misol (MMR) Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymry (WAST) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru hefyd yn llifo trwy bwyllgorau a bwrdd.<br>Mae dosbarthiad pellach sydd wedi'i gynnwys yn y profforma sydd i'w | Gweithredwyd –<br>31 Awst 2024 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol (FinCoR) |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | gwblhau nawr yn cynnwys manylion pellach (h.y. Cynhyrchu Incwm) felly mae hyn yn caniatáu cysoni cliriach ar gyfer 2024/25 a thu hwnt. | | |
| A4 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'i hadolygiad Gateway diweddar o'i Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn cryfhau ei threfniadau arbedion ymhellach ac yn gwneud y mwyaf o'i chyfleoedd arbedion. **(Paragraff 19)** | Rhoddodd Adolygiad Gateway gyfle i hunanasesu llwyddiannau a heriau'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Gyda'r hunanasesiad hwn mae 11 gwers allweddol, pob un ohonynt yn cael eu hadolygu'n barhaus, ac mae llawer ohonynt yn tanategu amcanion 2024/25 yr FSP.<br>Ar y cyfan, mae'r FSP wedi gweithredu nifer o argymhellion hyd yma, gan gynnwys gwell cyfathrebu ac ymgysylltu, a gwell buddsoddiad | Amrywiol – fel yr hyn sydd ynghlwm.<br>Adolygiad manwl nesaf tebygol / Gateway ar ôl 2024/25 – 30 Mehefin 2025 | Amrywiol, ond dan arweiniad Cyfarwyddwr P&C fel SRO ar gyfer yr FSP |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn dyfodol sy'n gynaliadwy yn ariannol, gan gynnwys strwythur masnachol mewnol. Bydd yr argymhellion hynny nad ydynt wedi'u gweithredu eto naill ai'n cael eu gwneud cyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25, neu byddant yn debygol o gael eu cynnwys yng nghynllun gweithredol Rôl y Pennaeth Masnachol sy'n dod i mewn.<br>Ynghlwm fel atodiad mae'r rhestr lawn o'r gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys diweddariad ynghylch y sefyllfa bresennol ar Awst 30ain, 2024. Byddwn yn ceisio darparu diweddariadau rheolaidd wrth i ni symud ymlaen drwy gydol y flwyddyn, trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, y Bwrdd Trawsnewid Strategol a'r | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel rhan o'r set ehangach o argymhellion. | | |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English